

Dogfen ffurfiol yw hon sy'n hysbysu ein rhanddeiliaid ynglŷn â newid yn y modd yr ydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Cynlluniau taliadau o 2016-17 – symud o broses gymeradwyo i ddull seiliedig ar reolau ar gyfer rheoleiddio cynlluniau taliadau

Mae'r wybodaeth hon yn cadarnhau newidiadau i'r modd yr ydym yn rheoleiddio cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff monopoli trwyddedig yng Nghymru a Lloegr.

Cefndir

Y prif offeryn a ddefnyddiwn i reoleiddio taliadau cwmnïau monopoli yw pecyn pris, gwasanaeth a buddsoddiad ('rheolaethau prisiau) yr ydym yn ei bennu. Yn ein rheolaethau prisiau rydym yn gosod y refereniwiau cyffredinol y caniateir i'r cwmnïau hyn eu hadennill gan gwsmeriaid dros gyfnod o bum mlynedd. Yna mae'r cwmnïau'n rhydd i bennu'r taliadau y maent yn eu codi, o fewn cyfyngiad deddfwriaeth, er mwyn adennill y refereniwiau a ganiateir iddynt.

Nid oes gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth gytundeb unigol gyda'u cwmni. Mae'r berthynas yn statudol - mae gan gwmnïau rwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i gwsmeriaid ac felly mae ganddynt y pwerau statudol i godi tâl arnynt am y gwasanaethau hyn.

Yn yr amgylchiadau hyn, mae taliadau a thelerau cysylltiedig (megis amserau a dulliau talu) wedi eu pennu mewn 'cynlluniau taliadau' a wneir gan gwmnïau o dan adran 143 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91).

Os na fydd unrhyw gytundeb unigol, cynllun taliadau yw'r sail gyfreithiol ar gyfer taliadau cwsmeriaid.

Hyd 1 Tachwedd 2015, roedd WIA91 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynlluniau taliadau gael eu cymeradwyo gennym ni cyn y gallent ddod i rym.

Newidiadau i reoleiddio cynlluniau taliadau

Ar 1 Tachwedd, fe wnaeth darpariaethau Deddf Dŵr 2014 (WA14) ddileu'r gofyniad i gynlluniau taliadau gael eu cymeradwyo gennym ni. Yn hytrach, mae gennym nawr y

pŵer i bennu 'rheolau ynglŷn â chynlluniau taliadau' y mae'n rhaid i gynlluniau taliadau gydymffurfio â hwy.

Yn ogystal, rhoddodd WA14 bwerau gorfodi newydd i ni. Os ydym yn teimlo nad yw cynllun taliadau cwmni yn cydymffurfio â'r rheolau â gofynion penodol eraill yna bydd gennym y pŵer i gyflwyno cyfarwyddyd i'r cwmni dŵr er mwyn sicrhau cydymffurfiad. Gallwn hefyd gymryd camau gorfodi pellach, megis gosod cosb ariannol, os bydd cwmni'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd.

Rydym yn croesawu'r newid hwn. Mae hyn yn gyson â'n strategaeth i sefydlu ymddiriedolaeth a hyder mewn gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Mae'n galluogi mwy o berchnogaeth cwmni ac arloesedd o ran pennu tariff. Mae hefyd yn caniatáu i ni nodi'r egwyddorion y credwn ni sy'n bwysig ar gyfer cwsmeriaid mewn ffordd fwy effeithiol.

Rheolau cynlluniau taliadau a gofynion o ran gwybodaeth

Ar 17 Tachwedd 2015 cyhoeddodd ein rheolau cynllun taliadau - rheolau y mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gydymffurfio â hwy wrth bennu taliadau cwsmeriaid ar gyfer 2016-17 a blynyddoedd wedi hynny (ac eithrio ar gyfer cwsmeriaid sydd ar drefniadau arbennig).

Daw'r rheolau hyn i rym ar 17 Tachwedd 2015 a byddant yn berthnasol i unrhyw gynlluniau taliadau newydd, yn arbennig y rheini ar gyfer y flwyddyn 2016-17 ac wedi hynny.

Ymhlith pethau eraill, mae ein rheolau'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob cwmni:

- ymgynghori â Chyngor Defnyddwyr Dŵr (CCWater) ynglŷn â'i gynllun taliadau arfaethedig;
- ystyried strategaethau trin ar gyfer cynnydd sylweddol mewn biliau;
- cynnig ad-daliad i gwsmeriaid pan fydd yn gwybod (neu dylai'n rhesymol fod yn gwybod) nad yw dŵr wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus';
- darparu dewis rhesymol ynglŷn ag amserau a dulliau talu taliadau; a
- chyhoeddi'r cynllun taliadau yn glir ar ei wefan erbyn diwrnod gwaith cyntaf mis Chwefror bob blwyddyn.

Gallwn ddiweddarau'r rheolau pryd bynnag y bo hynny'n briodol er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y mae'r sector yn gweithredu. Wrth adolygu'r rheolau codi tâl byddwn yn ystyried y canllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar eu canllawiau codi tâl perthnasol i Ofwat yn gynharach eleni.

Yn ogystal â phennu rheolau cynllun taliadau y mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â hwy, rydym wedi amlinellu'r wybodaeth yr ydym am i gwmnïau ei darparu fel sicrwydd i'w cynllun taliadau. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dylai pob cwmni gyhoeddi datganiad sicrwydd Bwrdd dim hwyrach na chyhoeddiad ei gynllun taliadau. Dylai hyn gadarnhau'r canlynol:

- bod y cwmni'n cydymffurfio â'i holl rwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r taliadau a nodir yn ei gynllun taliadau;
 - bod Bwrdd y cwmni'n cymeradwyo'r asesiad effaith a'r strategaethau trin mewn achosion lle mae cynnydd biliau ar gyfer mathau penodol o gwsmeriaid yn uwch na 5%; a
 - bod y wybodaeth yn gywir a'i fod wedi ymgynghori â CCWater.
- Rhaid i bob un o'r 18 cwmni mwyaf gyhoeddi datganiad cynnydd sylweddol mewn biliau o leiaf dair wythnos cyn cyhoeddi ei gynllun taliadau. Dylai'r datganiad gadarnhau:
 - a yw'r cwmni'n rhagweld unrhyw gynnydd mewn biliau sy'n fwy na 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; ac
 - (os ydyw), pa gwsmeriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt a'r strategaethau trin y mae wedi eu mabwysiadu.
 - Ar gyfer cwmnïau bach ('penodeion newydd'), dylai'r datganiad sicrwydd Bwrdd uchod hefyd gadarnhau bod eu cynlluniau taliadau:
 - yn cynnig lefelau gwasanaeth i'w cwsmeriaid sydd o leiaf yn gymharol â chynllun taliadau'r penodai blaenorol;
 - nad yw prisiau'n uwch na'r rheini yng nghynllun taliadau'r penodai

blaenorol ar gyfer gwasanaethau tebyg; a

- bod prisiau'n cyfateb i'r rheini a nodwyd yn eu cais am benodiad.

Y camau nesaf

Nid oes yn rhaid i gwmnïau mwyach gyflwyno eu cynllun taliadau i ni ar gyfer ei gymeradwyo. Yn hytrach mae'n rhaid iddynt wneud yn siŵr bod eu cynllun taliadau'n cydymffurfio â'u holl rwymedigaethau cyfreithiol, yn cynnwys ein rheolau codi tâl.

Bydd y 18 cwmni mwyaf yn cyhoeddi datganiad o gynnydd sylweddol mewn biliau dim hwyrach na 11 Ionawr 2016.

Bydd pob cwmni'n cyhoeddi ei gynllun taliadau a datganiad sicrwydd Bwrdd dim hwyrach na 1 Chwefror 2016.

Yn fuan byddwn yn cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth ar wahân yn nodi disgwyliadau pellach ar gyfer cynlluniau taliadau cwmni ar gyfer 2016-17.

Byddwn yn adolygu ein rheolau codi tâl eto yn 2016-17 ac yn eu newid lle bo angen er mwyn diogelu cwsmeriaid.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hysbysiad gwybodaeth hwn, anfonwch neges e-bost at: charging@ofwat.gsi.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Rheolau cynllun taliadau terfynol a chrynodeb o ymatebion i'n rheolau cynllun taliadau drafft, Ofwat, Tachwedd 2015

Rheolau cynllun taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B Deddf Diwydiant Dŵr 1991, Ofwat, Tachwedd 2015.

[Ymgynghoriad ar ganllawiau codi tâl y llywodraeth i Ofwat – Crynodeb o ymatebion](#), Llywodraeth y DU, Tachwedd 2015

[Ymgynghoriad ar reolau cynllun taliadau ar gyfer 2016-17 a datblygiadau yn y dyfodol](#), Ofwat, Medi 2015

[Ymgynghoriad: canllawiau codi tâl i Ofwat \(rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr\)](#), Llywodraeth Cymru, Awst 2015

[Ymgynghoriad ar Ganllawiau Codi Tâl i Ofwat](#), Llywodraeth y DU, Gorffennaf 2015

[Ymgynghoriad ar daliadau cyfanwerthu a manwerthu ar gyfer 2015-16 a rheolau cynllun taliadau](#), Ofwat, Mai 2014

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinigogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ein gweledigaeth yw bod yn rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo ac a berchir, bod yn flaengar a herio ein hunain ac eraill er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn dŵr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio
Tachwedd 2015

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

